# Ysgol Gymraeg Croes Atti

Addysg Gynradd Gymraeg Sir y Fflint

## Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni 2022-2023

Rhagori Gyda'n Gilydd

Ysgol Croes Atti

Llwyddiant i Bawb


**Pennaeth Ysgol**

Gwyn Jones

**Ffordd Gaer**
**Fflint**
**Sir Fflint**
**CH6 5DU**
**01352 733335**

**Stryd Plymouth**
**Shotton**
**Sir Fflint**
**CH5 1JD**
**01244 812806**

**postcroesatti@hwbmail.net**

**Gair o groeso gan Gadeirydd y Llywodraethwyr**

Annwyl rieni/gofalwyr,

Ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Croes Atti, mae'n bleser mawr cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y Flwyddyn 2022-2023. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn dyst i'r gwaith caled sydd wedi bod yn digwydd ar y ddwy safle dros y deuddeg mis diwethaf.

Yn gyntaf, does ond angen i chi edrych drwy'r adroddiad hwn i weld y cyflawniadau gwych y mae'r ysgol wedi'u gweld dros y deuddeg mis diwethaf. Gyda hyn mewn golwg, hoffwn gydnabod Mr Gwyn Jones, y tîm arwain a'r rôl y mae pob aelod o staff (boed yn gymhorthion dysgu, staff cefnogi, staff y ffreutur neu'r gofalwyr) yn ei chwarae yng ngweithrediad dyddiol ein hysgol. Amlygir hyn trwy ymroddiad ac ymrwymiad staff Ysgol Gymraeg Croes Atti sy'n sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol: gan ddarparu cwricwlwm, cyfleoedd a phrofiadau cyfoethog mewn lleoliad diogel, gofalgar ac uchel ei barch lle mae pob dysgwr yn arwain eu dysgu tuag at gynnydd - yn addysgol ac yn gymdeithasol yn ddyddiol.

Nid yw Ysgol Gymraeg Croes Atti yn un am sefyll yn llonydd am rhy hir. Rydym yn ymfalchïo mewn newid a datblygiad cynyddol. Boed yn agoriad yr ysgol yng Nglannau Dyfrdwy yn 2014, y datblygiad sydd yn dod o safbwynt safle newydd Y Fflint, gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru neu'n gweithio'n aml ar ein cynlluniau datblygu ysgol i sicrhau gwelliant parhaus ym mhob agwedd ar yr hyn a wnawn. Rydym yn ysgol sy'n gweld newid fel rhywbeth cadarnhaol a chyffrous. Nid yn unig y mae hyn yn wir am y seilwaith, ond mae hefyd yn wir am ein Corff Llywodraethol. Gyda phenodiad diweddar dau riant lywodraethwr a llywodraethwr ALl, daw'r llywodraethwyr hyn â chyfoeth o brofiad, a fydd yn sicrhau bod dyfodol ein hysgol mewn dwylo hynod o ddiogel. Hoffwn i, fel Cadeirydd, ddiolch i'r Llywodraethwyr blaenorol a'r Llywodraethwyr presennol am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r ysgol wrth i ni symud ymlaen i ddyfodol disglair.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi - y rhieni. Mae eich cefnogaeth yn rhan annatod o'n teulu. Dangosir hyn trwy eich pobl ifanc ddawnus, gwydn a charedig, sy'n deall pwysigrwydd gweithio fel un tîm, gyda'n gilydd, i sicrhau bod Ysgol Gymraeg Croes Atti yn cynnal y safonau uchaf tra bob amser yn ymdrechu am ragoriaeth.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod.

Cofion cynnes,

Joe Stoneley
Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Manylion cyswllt

**YSGOL CROES ATTI FFLINT**
**FFORDD GAER,**
**FLINT, CH6 5DU**
**01352 733335**

**YSGOL CROES ATTI GLANNAU DYFRDWY**
**STRYD PLYMOUTH,**
**SHOTTON, CH5 1JD**
**01244 812826**

## Cyfeiriad ebost yr ysgol

postcroesatti@hwbmail.net

## Cadeirydd y Llywodraethwyr

Mr Joe Stoneley
(cysylltwch drwy law yr ysgol)

## Clerc i'r Llywodraethwyr

Mrs Sara Leverett
(cysylltwch drwy law yr ysgol)

## Pennaeth

Mr Gwyn Jones

## Swyddog Cefnogi a Gwelliant GwE

Mr Bryn Jones

## Prif Swyddog Addysg

Mrs Claire Homard
(cysylltwch drwy law yr ysgol)

**Cyfarfodydd Llywodraethwyr**

Mae cyfarfodydd y corff llywodraethol llawn yn cael eu cynnal chwe gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd, pryd derbyniodd ac ystyriodd y Llywodraethwyr adroddiadau ar Sgriwtini Cwricwlwm, Cyllid, Adeiladau ac Iechyd a Diogelwch ac adroddiadau am yr ysgol gan y Pennaeth.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol hyn mae llywodraethwyr hefyd yn ymweld â'r ysgol am amrywiaeth swyddogaethau a pherfformiadau.

**Mathau o Lywodraethwyr**

**Rhiant Lywodraethwr** = rhiant a etholwyd gan y rhieni.

Pan ddaw lle gwag ar gael ar gyfer Rhiant Lywodraethwr gwahoddir pob rhiant i wneud cais eu hunain neu enwebu rhywun arall. Os gwneir mwy nag un enwebiad ar gyfer pob unlle gwag, cynhelir etholiad pryd y gofynnir i bob rhiant bleidleisio. Os nad oes enwebiad yn cael ei dderbyn, caiff llywodraethwyr benodi unrhyw berson sydd â phlant o oedran ysgol i'r swydd wag.

**Awdurdod Lleol** = enwebwyd gan yr Awdurdod Lleol

**Athro-Lywodraethwr** = etholedig fel cynrychiolydd y staff addysgu

**Llywodraethwr Staff** = etholedig fel cynrychiolydd y staff cynorthwyol

**Llywodraethwr Cymunedol** = wedi'i gyfethol neu ei enwebu gan aelodau etholedig y Corff Llywodraethol fel cynrychiolydd Rhieni Cymunedol

**Gwybodaeth cyd destynnol**

Mae Ysgol Croes Atti yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ar ddwy safle yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru. Rydym yn ymfalchiio o fod yn 'un ysgol dwy safle' a chredwn mai ni yw'r unig ddarparwr o'r fath yn lleol.

Mae safle Croes Atti@Fflint yn darparu ar gyfer plant 3-11 oed yn nhref y Fflint, lle mae 189 o ddisgyblion eleni ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai o oedran anstatudol. Capasiti safle'r Fflint yw 207. Mae safle Croes Atti@Glannau Dyfrdwy 4.8 milltir i ffwrdd yn nhref Shotton. Wedi'i leoli mewn hen Ysgol Fabanod, agorodd y safle ei ddrysau ym mis Medi 2014 ar gyfer disgyblion Meithrin. Eleni mae'n darparu addysg ar gyfer 82 o ddisgyblion o'r dosbarth Meithrin hyd at Flwyddyn 6. Mae capasiti'r ail le hwn tua 120 (yn seiliedig ar faint cohort cyfartalog o 15). Arweinir y ddau safle gan un Pennaeth. Mae un Corff Llywodraethu ar gyfer y ddau safle, a phenodwyd y Cadeirydd presennol ym mis Medi 2023.

Penodwyd y Pennaeth presennol yn Ionawr 2015. Cyflogir 8 athro ar safle'r Fflint a 5 athro arall yn cael eu cyflogi ar safle Glannau Dyfrdwy, gan gynnwys y Dirprwy Bennaeth sydd â chyfrifoldeb dyddiol am reoli'r safle hwn. Mae cyfanswm o 15 o gynorthwywyr dosbarth yn cefnogi'r athrawon ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau ac ymyriadau. Mae gan un o'r athrawon 0.6 cyfrifoldeb Cydlynydd ADY ar draws y ddau safle.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ym mis Medi 2015 ac eto ym mis Hydref 2023 (adroddiad Rhagfyr 2023). Mae Cymhorthydd Gweinyddol llawn amser yn gweithio ar bob safle.

Gwasanaethir yr ysgol gan ddau ddarparwr cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg; mae un wedi ei leoli mewn caban pwrpasol ar safle'r Fflint a'r llall mewn adeilad pwrpasol newydd sbon

ar safle Glannau Dyfrdwy. Tan y llynedd roedd yr ysgol wedi bod yn cynnig cymorth o 10% bob wythnos i'r ddau leoliad cyn-ysgol, fel rhan o fenter a ariannwyd gan Awdurdod Lleol Sir y Fflint.Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-2023 roedd gennym 75 o ddisgyblion sydd â hawl derbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) sy'n cyfateb i 39% o ddisgyblion yr ysgol; nid yw hyn yn cynnwys disgyblion Derbyn sydd yn cael cinio am ddim fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru. Roedd 55 o ddisgyblion ar Gofrestr Anghenion Ychwanegol yr ysgol, sef 21%, a chyfanswm o 17 o ddisgyblion y mae'r ysgol yn eu hystyried yn 'fregus' boed hynny oherwydd iechyd, amgylchiadau personol neu sefyllfa bresennol y teulu.

Rydym yn falch bod 138/142 o'n disgyblion Bl6 wedi trosglwyddo i Ysgol Maes Garmon ers 2019, sef unig Ysgol Uwchradd Gymraeg Sir y Fflint, yn yr Wyddgrug. Gwelwn hyn fel dilyniant yn natblygiad ieithyddol ein disgyblion ac mae perthynas agos, adeiladol rhwng y ddwy ysgol. Mantais fawr mewn bywyd yw bod yn rhugl mewn dwyieithrwydd, ac rydym yn falch ein bod yn llwyddo i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o 3 oed hyd at 18 oed trwy ein perthynas ag Ysgol Maes Garmon.

**Amseroedd y Dydd**

**Meithrin**

8:55-11:30 y bore

| **Cyfnod Sylfaen** | **Adran Iau** |
|---|---|
| 8.55 – 10.30 | 8:55 – 10.30 |
| 10.45 – 11:55 | 10.45 – 12:05 |
| 1:05 - 3.10 | 1.05 – 3:15 |

**Gwybodaeth cyllidebol**

Gwariwyd y rhan fwyaf o gyllideb yr ysgol ar Staffio ac Adnoddau i gefnogi dysgu. Defnyddiwyd grantiau Llywodraeth Cymru i godi safonau addysgol, er enghraifft defnyddiwyd Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar gyfer ein disgyblion bregus. Mae cynllun bwriadus ar gyfer gwario tan wariant ol Cofid yn cynnwys archebu adnoddau i'r ddwy safle, dodrefn pwrpasol i safle Glannau Dyfrdwy, a chlustnodi gwariant ar gyfer safle newydd yn Oakenholt.

**Tîm Arwain yr Ysgol**

| | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mr Gwyn Jones |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs Mari Salisbury |
| **Cydlynnydd Addysg Dysgu Ychwanegol** | Mrs Elen Peters |
| **Uwch Athro** | Mr Ben Elias |
| **Arweinydd cwricwlwm 6-11** | Mrs Delyth Rogers |
| **Arweinydd cwricwlwm 3-7** | Mrs Lisa Lines |
| **Prif Swyddog**<br>**Dysgu a Chyflawniad** | Mrs Claire Homard<br>Neuadd y Sir<br>Yr Wyddgrug |
| **Cadeirydd y Llywodraethwyr** | Mr Joe Stoneley<br>d/o Ysgol Croes Atti |

**Staff**

Ar gyfer Mis Medi 2023 dyma sut byddwn yn cynnal y dosbarthiadau:

**Glannau Dyfrdwy**

| | |
|---|---|
| Miss Lois Hughes | Athrawes Meithrin/Derbyn |
| Mrs Mari Salisbury | Athrawes Bl1/Bl2/Dirprwy Bennaeth/Gofal Safle |
| Mrs Ffion Booth | Athrawes Bl3/Bl4 |
| Mrs Delyth Rogers | Athrawes Bl5/Bl6 |
| Mrs Elen Peters | CADY |

**Staff Cynorthwyol**

Miss Bethany Jones
Miss Joleigh Davies
Mrs Nicola Weir
Ms Kayleigh Jones
Mrs Beth Williams

**Fflint**

| | |
|---|---|
| Miss Faye Guest | Athrawes Meithrin |
| Mirs Lisa Lines | Athrawes Derbyn /UDRh |
| Miss Martha Cordiner | Athrawes Bl1/Bl2 |
| Miss Michaela Cooper | Athrawes Bl1/Bl2 |
| Mr Ben Elias | Athro Bl3/Bl4/UDRh |
| Miss Moli Jones | Athrawes Bl3/Bl4 |
| Miss Beca Williams | Athro Bl5/Bl6 |
| Mrs Lliwen Ashford | Athrawes Bl5/Bl6 |

**Staff Cynorthwyol**
Miss Shelley Beckett
Miss Ceri Owen
Mrs Beth Inskip
Mrs Sian Williams
Mrs Beth Ballantyne
Mrs Ann Reay
Mrs Carly Butler
Mrs Stephanie Parry
Mrs Emma Hawksworth
Mrs Simone Owen
Miss Louise Messham

**Tim Cefnogi**

| | |
|---|---|
| Mrs Christine Sargeant | Ysgrifenyddes |
| Mrs Paula Hughes | Cogyddes |
| Mrs Carol Picken | Cymhorthydd Cegin/Glanhawraig |
| Ms Louise Messham | Goruwchwyliwr Cinio |
| Mrs Lisa Morris | Goruwchwyliwr Cinio |
| Mrs Emma Hawksworth | Goruwchwyliwr Cinio |
| Mrs Alison Dixon | Goruwchwyliwr Cinio |
| Mr Geraint Owen | Gofalwr dros dro |
| | |
| Mrs Emma Lewis | Ysgrifennyddes Glannau Dyfrdwy |
| Mr Steve Winrow | Gofalwr Glannau Dyfrdwy |
| Mrs Nicola Weir | Glanhawraig |
| Ms Kayleigh Jones | Glanhawraig/Goruwchwyliwr Cinio |

## Gweledigaeth yr ysgol

"Ysgol parchus a gofalgar, ble mae pawb yn teimlo fel cymunedau yn Gymry dwyieithog, anibynnol, medrus."

Ein blaenoriaeth yn yr ysgol yw creu amgylchedd ddiogel a chynhwysol sydd, yn ei dro, yn helpu i ddatblygu plant dwyieithog sy'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ac yn rhugl yn eu bywyd dyddiol. Ymdrechwn tuag at y safonau uchaf posibl ym mhopeth a wnawn.

## Datganiad Cwricwlwm i Gymru

**Bydd wych,**
**Bydd barchus,**
**Bydd gwrtais,**
**Bydd Gymro.**

**Cefnogaeth i deuluoedd**
Miss Shelley Beckett yw ein Swyddog Ymgysylltu a Rhieni.
Mae hi'n cefnogi ac yn gallu cyfeirio teuluoedd ein hysgol i'r cyfeiriad cywir i gael cymorth gyda materion megis tai ac ymddygiad. Gall hefyd wneud cyfeiriadau i Asiantaethau Allanol i helpu gyda phroblemau amrywiol.

Mae Miss Beckett yn cynnal sesiynnau ar brynhawniau Mercher 'Teulu Time' ar naill safle pob wythnos, ble gwahoddir rhieni i'r ysgol i weithio gyda'u plant ar brosiectau hwyl. Mae hi hefyd yn cynnig cyngor ar agweddau amrywiol.

Mae Miss Beckett yn Ddirprwy Swyddog Diogelu yr ysgol, a chanddi wybodaeth ddda iawn a phrofiadau eang a gwerthfawr ym myd diogelu.

**Presenoldeb**
Atgoffir rhieni os yw eu plentyn yn absennol o'r ysgol, ei fod yn angenrheidiol i hysbysu'r ysgol (dros y ffôn neu drwy School Gateway) o'r rheswm dros yr absenoldeb -yn ddelfrydol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os nad yw rhieni yn cysylltu â'r swyddfa, bydd yr ysgol yn cysylltu a'r rhieni er mwyn sicrhau fod y plant yn ddiogel.
Mae salwch, apwyntiad meddygol, gwyliau teulu ac ati, yn cael ei gofnodi fel un absenoldeb awdurdodedig. Os na cheir eglurhad gan yr ysgol, yna bydd yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig yn y gofrestr – mae'r categori hwn yn cynnwys gwyliau o fwy na deg diwrnod mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodol. Mae cefnogaeth rhieni yn hynnod bwysig oherwydd bod plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn yr ysgol yn gyson yn colli llawer iawn
amser addysgiadol gwerthfawr, ac mae hefyd yn amharu ar weddill y dosbarth gan fod disgyblion gan amlaf wedi cychwyn ar weithgareddau'r diwrnod.

**Blaenoriaethau Ysgol 2022-2023**
Targed 1 – Cryfhau defnydd disgyblion o'r GYmraeg yn ystod adegau anffurfiol
Targed 2 – Hybu lles disgyblion a staff
Targed 3 – Sefydlu a datblygu Cwricwlwm i Gymru yng Nghroes Atti
Targed 4 – Rhoi ar waith rhaglen o fyfyrio a monitro strategol ol cofid
Targed 5 - Tracio data cyrhaeddiad er mwyn dangos datblygiad a chynnydd disgyblion
Targed 6 - Ehangu darpariaeth allanol ar y ddwy safle, agn gynnwys cynnal a thrwshio
Targed 7 - Datblygu ymhellach medrau arweinyddol staff
Targed 8 - Cyfrannu at brosesau atgyweirio a chynllunio y ddwy safle

**Diogelwch a Diogelu'r Safle**
Gofynnwn i bob rhiant ac ymwelydd adrodd i'r brif swyddfa ym mhrif fynedfa'r ysgol.
Mae trefn electroneg ddiogel ar gyfer arwyddo i mewn i'r ddwy safle.
Gofynnir i rieni beidio â dod i mewn i'r ysgol yn ystod oriau ysgol ond bydd staff y swyddfa yn hapus i helpu gydag unrhyw ymholiadau. Gall rhieni sy'n dymuno gweld

athrawon wneud hynny yn syth  ar ôl ysgol ond yn ddelfrydol gofynnwn i chi drefnu apwyntiad yn gyntaf.

**Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn academaidd 23-24**

Tymor yr Hydref: 5 Medi 2023 - 21 Rhagfyr 2023

- Hanner Tymor: 30 Hydref 2023 - 3 Tachwedd 2023

Tymor y Gwanwyn: 9 Ionawr 2024 - 22 Mawrth 2024

- Hanner Tymor: 12 Chwefror 2024 - 16 Chwefror 2024

Tymor yr Haf: 8 Ebrill 2024 - 18 Gorffenaf 2024

- Hanner Tymor: 27 Mai 2024 - 31 Mai 2024

**Dyma ddyddiadau hyfforddiant staff**

Medi 1af
Medi 4ydd
Rhagfyr 22ain
Ionawr 8fed
Mehefin 14eg
Gorffennaf 19fed

**Llawlyfr Ysgol**

Mae'r llawlyfr diweddaraf i'w weld ar safw yr ysgol www.ysgolcroesatti.co.uk

**Cysylltiadau Cymunedol**

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein cysylltiadau cymunedol a cyfranogiad rhieni y thu allan a thu mewn i'r ysgol.

- Rydym wedi cynnal hyfforddiant gydag Ysgolion Clwstwr - mae athrawon yn gweithio'n agos ar dasgau safoni a chynllunio cwricwlaidd
- Partneriaeth gyda GwE ar gyfer monitro, herio a chefnogi.
- Swyddog Cyswllt Cymunedol yr Heddlu
- Ymweliadau lleol â'r ardal a busnesau lleol
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â theuluoedd e.e. Dathliadau Cynhaeaf a Nadolig, gweithdai Teulu Time, ac ati.

Eleni ar gyfer Cynhaeaf fe wnaethom gefnogi elusen leol o'r enw "Banc Bwyd Sir y Fflint" drwy ddarparu bagiau bwyd i bobl mewn angen yn ein cymuned, i helpu ar adegau o argyfwng. Ar gyfer hyn gofynnom am roddion bwyd a throsglwyddwyd i'r elusen. Cododd yr ysgol arian at elusennau amrywiol gan gynnwys Plant Mewn Angen, Sports Relief a'r Urdd. Mae'r ysgol hefyd wedi helpu'r gymuned ehangach drwy cefnogi elusen Apêl y Pabi.

**Cwricwlwm**

Medi 2022 oedd lansiad swyddogol y Cwricwlwm newydd i Gymru. Y genhadaeth genedlaethol yw i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n ffynhonnell o falchder cenedlaethol.

Yn dilyn adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus" gan yr Athro Graham Donaldson mae pedwar diben i'r cwricwlwm newydd. Bwriad y pedwar diben hyn yw datblygu plant fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ein nod yw darparu gofal ac addysg o'r safon uchaf mewn amgylchedd hapus, gofalgar, gweithgar a diogel i alluogi pob plentyn, beth bynnag fo'i gallu, i gyflawni ei botensial ac anelu'n uchel. Rhoddir pwyslais ar ddysgu sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd a phwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac ystyrlon i'r disgyblion. Rhoddwm bwysigrwydd mawr ar wneud y plant yn ymwybodol o'u hamgylchedd, eu cymuned, eu gwlad a'r byd.

Hyderwn i ddatblygu disgyblion i fod â chariad at iaith, yr ardal leol a'r byd. Byddwn yn dangos parch a gofal at ein gilydd gan edmygu a gwerthfawrogi pawb. Cynigiwn le i bawb anelu'n uchel, bod yn fentrus a mwynhau dysgu gyda balchder. Ymgorfforwn gyfleoedd i feistroli sgiliau newydd gan ddatblygu creadigrwydd ac awch wrth gydweithio ag eraill.

**Meysydd Profiad Dysgu**

Trwy ddefnyddio dull addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar themâu a chwestiwn mawr, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn yn gwneud cyfraniadau arbennig a chryf at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder y cwricwlwm. Mae cyfoeth o brofiadau addysgol yn rhan annatod o'r cwricwlwm, i ehangu gorwelion y plant, ysgogi eu dychymyg a hybu mwynhad wrth ddysgu.

Dyma'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad;:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol

Mae pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad wedi'u cynllunio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben y cwricwlwm, ac yn darparu man cychwyn a dyhead wrth ddatblygu cwricwlwm ysgol gyfan.

**Cymru a Chymreictod** - Rydym yn dysgu iaith newydd, yn ei chaffael a'i mwynhau ym mhob rhan o fywyd ysgol. Rydym yn Gymry Cymraeg balch.

**Cymuned** - Byddwn fel ysgol yn ymfalchïo yn ein cymunedau lleol gan fanteisio ar ein byd o'm cwmpas a dangos parch tuag ato.

**Hyder** - Wrth gyflwyno sialensiau newydd, cyfleoedd dysgu diddorol byddwn yn creu disgyblion sy'n credu yn eu hunain i anelu uchel i gyrraedd y nod.

**Hapusrwydd a mwynhad** - Bydd y disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu gan annog ei gilydd a magu cymhelliant

**Mentro** - Wrth gyd-gynllunio bydd y dysgu yn ysbrydoledig, bydd hyder i fentro, i annog ei gilydd, i feddwl yn greadigol a dysgu o lwyddiannau a methiannau cyn symud ymlaen i'r her nesaf.

**Parch, gofal a lles** - Rydym yn parchu'n gilydd ac eiddo pawb. Dangoswn barch wrth wrando ar farn a theimladau'n gilydd. Edrychwn ar ôl ein gilydd.

**Cefnogi a Chydweithio** - Byddwn yn cefnogi ein gilydd ym mhob agwedd o fywyd ysgol er mwyn datblygu a dysgu'n barhaus.

Credwn fod pob aelod o gymuned Ysgol Gymraeg Croes Atti yn ddysgwr - boed disgyblion, staff neu rieni. Gyda'n gilydd rydym yn datblygu fel sefydliad dysgu, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddaw o ymchwil, arferion ysgolion eraill, busnesau, a'r byd go iawn i adeiladu diwylliant ar gyfer gwella.

Mae gan y gwersi feini prawf llwyddiant (sydd hefyd yn cynnwys rhifedd, llythrennedd a / neu gymhwysedd digidol) i sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r sgiliau penodol y maen nhw'n eu datblygu yn y wers honno. Yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer cyfleoedd i fynd i'r afael ag addysg perthnasoedd a rhywioldeb yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Er mwyn cael y gorau o'n holl ddysgwyr (ac mae hynny'n cynnwys staff) credwn fod yn rhaid i ni gynnig profiadau cyfoethog a chyffrous. Rydym fel ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb, yn ennyn brwdfrydedd ac yn ysbrydoli ein disgyblion a'n staff. Rydym yn annog athrawon i gael y rhyddid i addysgu mewn ffyrdd y byddant yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'w dysgwyr gan gydweithio i dreialu dulliau newydd. Mae gan bob plentyn lais yma yn Croes Atti ac maen nhw'n cyfrannu at eu cwricwlwm. Rydym yn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dros eu dysgu trwy gynllunio ar ddechrau pob tymor.

Mae pob thema ysgol neu gwestiwn mawr yn cael ei lawnsio ar ddechrau pob tymor newydd naill ai trwy deithiau, gweithgareddau yn yr ysgol neu ddefnyddio ymwelwyr er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r dysgwyr o ddiwrnod cyntaf pob tymor. Rydym hefyd yn dathlu'r gwaith a gyflawnwyd gan ein disgyblion trwy gynnal diwrnod dathlu ar ddiwedd pob tymor.

Rydym yn astudio thema wahanol pob tymor gan ychwanegu is-themau yn ôl y galw drwy ddiddordebau neu arweiniad gan ddisgyblion. Mae gennym bwyslais cryf ar gaffael a chymhwyso sgiliau a gwybodaeth trwy ddysgu trwy brofiad a gweithredoedd. Ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, mae cynllun cadarn mewn lle ar gyfer cymhwyso rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol. Disgwylir i athrawon gynllunio a chyflawni amcanion dysgu sydd wedi'u gosod yn briodol i anghenion y dysgwyr.

Fel ysgol sy'n parchu hawliau'r unigolyn, rydym nid yn unig yn dysgu am hawliau plant ond hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas. Mae agwedd ysgol gyfan tuag at lesiant yn galluogi ein disgyblion i ddeall eu hemosiynau eu hunain ac emosiynau eraill. Mae hyn yn unol â'r maes dysgu Iechyd a Lles, ac mae wedi'i integreiddio trwy gydol y diwrnod ysgol, a thrwy'r cwricwlwm ei hun.

**<u>Clwb Brecwast / Clwb ar ôl Ysgol</u>**
Mae gan yr ysgol glwb brecwast ar y ddwy safle o 8:00-8:30. Mae tal i ddod i'r Clwb Brecwast yma.

Mae Clwb brecwast am ddim yn y Fflint ac yng Nglannau Dyfrdwy, o 8:30-8:50.

Mae clwb ar ôl ysgol ar agor o 3:15 o'r gloch hyd at 5:30 yn ein hysgol yn y Fflint. Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth pellach parthed amseroedd, ffurflenni cofrestru, a chostau ayyb.

**<u>Gofal a Lles</u>**
Mae gofal bugeiliol y plant yn nwylo'r athrawon dosbarth ac mae pob un aelod o'r staff a'r Pennaeth yn gyfrifol am ddiogelwch plant yn yr ysgol. Swyddog Diogelu'r ysgol yw Mr Gwyn Jones, gyda Mrs Mari Salisbury a Miss Shelley Beckett yn Ddirprwy Swyddogion Diogelu.

Dylai plentyn gael y cyfle i drafod ac ymddiried mewn aelod o staff pan fo problemau a phryderon yn codi. Ein blaenoriaeth yw lles y plentyn. Mae gan yr ysgol sawl aelod o staff hyfforddedig sy'n darparu rhaglenni anogaeth i gefnogi plant os a phan fo angen.

**<u>Disgyblion ag Anableddau</u>**
Mae gan ddisgybl anabledd os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol sydd â nam sylweddol ac effaith andwyol hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol

o ddydd i ddydd a hynny yn gofyn i'r ysgol wneud darpariaeth wahanol ar ei gyfer. Bydd yr ysgol yn derbyn pob disgybl y gellir diwallu eu hanghenion addysgol o'r adnoddau sydd ar gael o fewn ein hysgol ac na fydd eu derbyniad yn amharu'n sylweddol ar anghenion eraill. Os oes gan blant ddatganiad o ADY, rhaid i'r AALl drafod eu derbyniad

Mae trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion eraill sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rheini sydd â namau corfforol neu feddyliol, wedi'u nodi ym Mholisi ADY yr ysgol. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys manylion y camau a gymerwyd i atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai
ffafriol na disgyblion eraill a manylion y cyfleusterau a ddarperir i gynorthwyo mynediad i'r ysgol gan ddisgyblion ag anableddau. Mae'r polisi ADY ar gael gan y Pennaeth i bob rhiant ei weld.

## Delegated budget for Flint site 2022-2023

| Funding Element | Description | 2022/23 £ |
|---|---|---|
| Element 1 | Teaching | 445,041 |
| Element 2 | Classroom Support | 82,572 |
| Element 3 | Admin | 28,627 |
| Element 4 | ALN | 33,404 |
| Element 5 | Deprivation | 8,657 |
| Element 6 | Premises | 36,819 |
| Element 7 | Energy | 15,810 |
| Element 8 | Supplies & Services | 28,778 |
| Element 9 | Welsh Medium | 2,299 |
| Element 10 | Resources | 0 |
| Element 11 | NNDR | 12,840 |
| Element 12 | Split Site | 0 |
| Element 13 | SLAs | 48,134 |
| Element 14 | Breakfast Clubs | 12,250 |
| | Totals | 755,233 |

## Delegated budget for Glannau Dyfrdwy site 2022-2023

| Funding element | Description | 2022-23 Allocation £ |
|---|---|---|
| Element 1 | Teaching | 160,029 |
| Element 2 | Classroom Support | 33,500 |
| Element 3 | Admin | 13,930 |
| Element 4 | ALN | 9,732 |
| Element 5 | Deprivation | 8,657 |
| Element 6 | Premises | 31,365 |
| Element 7 | Energy | 13,562 |
| Element 8 | Supplies & Services | 12,217 |
| Element 9 | Welsh Medium | 886 |
| Element 10 | Resources | 0 |
| Element 11 | NNDR | 10,566 |
| Element 12 | Split Site | 0 |
| Element 14 | Breakfast Clubs | 6,376 |
| | Total Delegated Budget | 300,820 |